Rhaglen Epidemioleg Ddeintyddol I Gymru
Dental Epidemiology Programme For Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

CARDIFF UNIVERSITY | PRIFYSGOL CAERDYDD

# Iechyd y geg ymhlith disgyblion blwyddyn un (5 oed) yng Nghymru 2024-25


## Pwy gafodd ei archwilio?

Archwiliwyd **8,526** o blant o **656** o ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth ledled Cymru (tua **1 o bob 3** plentyn).

## Sut wnaethom ni fesur iechyd y geg?


Gwnaethom gyfrif nifer y dannedd a oedd naill ai â phydredd dannedd neu ddannedd a oedd wedi'u llenwi neu eu tynnu oherwydd clefyd. Yna fe wnaethom gyfrifo faint o blant a oedd â dannedd wedi pydru, dannedd ar goll neu ddannedd wedi'u llenwi ledled Cymru (a elwir yn gyffredinrwydd) a chyfrifo nifer cymedrig y dannedd yr effeithiwyd arnynt gan bydredd dannedd fesul plentyn (a elwir yn ddifrifoldeb).

## Cyffredinrwydd pydredd dannedd




Roedd gan ychydig dros **1 o bob 4** o blant a archwiliwyd bydredd dannedd.

Er 2007/8, gwelwyd gostyngiad yng nghyffredinrwydd pydredd dannedd.





## Difrifoldeb pydredd dannedd

Ymhlith yr holl blant a archwiliwyd, roedd tua **1 dant** yn dangos arwyddion o bydredd dannedd (colofnau glas golau).

Roedd gan y plant â phydredd dannedd tua 3½ o ddannedd yn dangos arwyddion o glefyd (colofnau glas tywyll).


Er 2007/8, gwelwyd gostyngiad cyffredinol yn nifrifoldeb pydredd dannedd





## Anghydraddoldeb iechyd y geg ledled Cymru

Mae plant o gefndiroedd difreintiedig yn profi lefelau uwch o gyffredinrwydd a difrifoldeb pydredd dannedd.
Nid yw'r patrwm hwn wedi newid er 2007/8.

### Cyffredinrwydd





**Lleiaf difreintiedig**




**Mwyaf difreintiedig**

### Difrifoldeb




**Lleiaf difreintiedig**





**Mwyaf difreintiedig**


## Dosbarthiad cyffredinrwydd a difrifoldeb ledled Cymru

**Roedd cyffredinrwydd a difrifoldeb pydredd dannedd yn amrywio ledled Cymru**


Roedd cyffredinrwydd plant â phydredd dannedd yn amrywio o 21.04% yn BIP Caerdydd a'r Fro i 30.3% yn BIP Aneurin Bevan




Roedd difrifoldeb pydredd dannedd yn amrywio o 0.70 yn BIP Caerdydd a'r Fro i 1.12 yn BIP Bae Abertawe.




## Effaith pydredd dannedd ledled Cymru




Roedd pydredd dannedd yn cael effaith negyddol ar **17.7%** o'r plant a archwiliwyd (**bron i 1 o bob 5**)


Iechyd Cyhoeddus Cymru, Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru (WOHIU) ym Mhrifysgol Caerdydd a'r Byrddau Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am Raglen Epidemiolegol Deintyddol GIG Cymru.
Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru gynnal y rhaglen o dan Gylchlythyr Iechyd Cymru (WHC) (2021) 32: Rôl a darpariaeth iechyd deintyddol y cyhoedd yng Nghymru. Y Cydlynydd Epidemioleg Deintyddol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n cydlynu'r rhaglen ledled Cymru. https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/iechyd-cyhoeddus-deintyddol/gwybodaeth-iechyd-y-geg/